

Taflen Ffeithiau

Sut i wneud cais am adolygiad o benderfyniad a wnaed dan
Adran 85 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 Rhan 2

Coed Pella
Conway Road
Bae Colwyn.
LL29 7AZ
0300 1240040



Os nad ydw i'n cytuno â phenderfyniad rydych chi wedi'i wneud, ydw i'n gallu gofyn iddo gael ei ailystyried?

Gallwch wneud cais i adolygu penderfyniad dan y ddeddf uchod yn y pwyntiau canlynol:

- Aseiad Canlyniad Adran 62
- Dyletswydd Diwedd Adran 66
- Trosglwyddo Dyletswydd Adran 66 i Adran 73
- Dyletswydd Diwedd Adran 73
- Trosglwyddo Dyletswydd Adran 73 i Adran 75
- Dyletswydd Diwedd Adran 75
- Penderfyniad i beidio darparu Interim Adran 68
- Dyletswydd Interim Diwedd Adran 68
- Atgyfeiriad Adran 80
- Addasrwydd llety

Eich hawl i wneud cais am adolygiad

Mae eich hawl i wneud cais am adolygiad yn rhan hanfodol o system gytbwys sy'n diogelu eich hawliau ac yn sicrhau bod gwasanaethau ar gael gan Awdurdodau Lleol.

Mae gennych hawl i wneud cais am adolygiad o'r penderfyniadau canlynol:

- Penderfyniad ynghylch a ydych chi'n gymwys i gael cymorth - a ydych yn cael eich ystyried yn unigolyn o dramor sy'n anghymwys i gael cymorth
- Penderfyniad nad oes gennych hawl i ddyletswydd tai oherwydd bod penderfyniad wedi'i wneud nad ydych yn ddiartref na dan fygythiad o ddiartrefedd
- Penderfyniad nad oes gennych chi angen blaenoriaethol am lety dros dro
- Penderfyniad bod dyletswydd i atal neu helpu eich digartrefedd wedi dod i ben – diwedd y cyfnod 56 diwrnod o gymorth i helpu digartrefedd neu bod yr adran dai yn fodlon bod llety ar gael ac yn debygol o fod ar gael am o leiaf chwe mis
- Penderfyniad bod dyletswydd i atal a helpu digartrefedd wedi dod i ben - mae gennych hawl i wneud cais am adolygiad o pa un a gafodd camau rhesymol eu cymryd yn ystod y cyfnod yr oedd y ddyletswydd yn ddyledus i gynorthwyo i sicrhau y byddai llety addas ar gael ar eich cyfer ai peidio.
- Penderfyniad i ddod â dyletswydd i ben oherwydd eich bod chi wedi cael cynnig llety - Gallwch wneud cais am adolygiad o addasrwydd y llety a gynigir i chi
- Penderfyniad i'ch atgyfeirio at Awdurdod arall oherwydd ei bod yn ymddangos bod gennych gysylltiad lleol gydag ardal yr Awdurdod hwnnw ac nid â Chonwy
- Penderfyniad eich bod chi'n fwriadol ddiartref



Nid oes gennych yr hawl i wneud cais am adolygiad o'r penderfyniad a wnaed mewn adolygiad cynharach.

Rhaid gwneud cais am adolygiad cyn diwedd y cyfnod o 21 diwrnod gan ddechrau gyda'r diwrnod y'ch hysbyswyd am y penderfyniad. Gellir ymestyn y cyfnod hwn ond fel y nodir gan yr Awdurdod Lleol yn unig.

Er y gallwch wneud cais am adolygiad ar lafar neu'n ysgrifenedig (neu'r ddau), rhaid i'r cais am adolygiad gael ei wneud gennych chi neu rywun sy'n gweithredu ar eich rhan

Beth sy'n digwydd nesaf?

Rhaid i ni adolygu ein penderfyniad pan gaiff cais ei wneud.

Bydd y swyddog adolygu yn ystyried unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i'r cyfnod cyn y penderfyniad (hyd yn oed os cafwyd yr wybodaeth ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud) ac unrhyw wybodaeth berthnasol newydd a gafwyd ar ôl y penderfyniad.

Ni fydd y swyddog adolygu wedi bod yn rhan o'r penderfyniad gwreiddiol.

Cewch eich gwahodd i ddatgan eich rhesymau dros wneud cais am adolygiad ar lafar neu'n ysgrifenedig (neu'r ddau) mewn cysylltiad â'ch cais am adolygiad (os na fyddwch wedi gwneud hynny eisoes) ac i gasglu unrhyw wybodaeth newydd sydd gennych mewn perthynas â'ch adolygiad.

Sut fydda i'n gwybod beth fydd y penderfyniad?

Cewch wybod canlyniad y penderfyniad ynghylch eich adolygiad wyth wythnos o'r diwrnod y gwnaethoch y cais am adolygiad, os yw'r penderfyniad gwreiddiol wedi'i wneud gan yr Awdurdod.

Deg wythnos, os yw'r penderfyniad wedi'i wneud ar y cyd gan ddau Awdurdod.

Deuddeg wythnos, os yw'r penderfyniad wedi'i wneud gan unigolyn a benodwyd.

Ym mhob un o'r achosion hyn, bydd y swyddog adolygu yn ceisio eich cytundeb i ymestyn y cyfnod a ragnodwyd a rhaid i unrhyw gytundeb fod mewn ysgrifen.

Ar ôl cwblhau'r broses adolygu, bydd y swyddog adolygu yn eich hysbysu o'r rhesymau dros y penderfyniad mewn ysgrifen, a bydd yn:

- Cadarnhau a oes gennych chi hawl i ddyletswydd neu beidio
- Cadarnhau penderfyniad gwreiddiol unrhyw fater yn erbyn eich buddiannau
- Cadarnhau penderfyniad blaenorol i hysbysu awdurdod arall
- Cadarnhau penderfyniad blaenorol bod yr amodau am atgyfeiriad i awdurdod arall wedi'u bodloni yn eich achos chi.

Bydd y swyddog adolygu yn egluro'r rheswm dros benderfyniad yr adolygiad pan fo'r penderfyniad yn erbyn eich buddiannau.

Ar y cam hwn, bydd y swyddog adolygu yn eich cyngori ynghylch eich hawl i apelio i Lys Sirol yn erbyn penderfyniad yr adolygiad a'r cyfnod i apelio.



Hawl apelio i lys sirol ar bwynt cyfreithiol

Mae gennych hawl i apelio i lys sirol ar unrhyw bwynt cyfreithiol sy'n codi o'r penderfyniad yn yr adolygiad os:

- ydych yn anfodlon â'r penderfyniad ar adolygiad, neu
- os nad ydych wedi cael eich hysbysu am y penderfyniad ar adolygiad o fewn yr amser a ragnodwyd

Rhaid cyflwyno apêl o fewn 21 o ddiwrnodau i:

- ddyddiad eich hysbysu am benderfyniad yr adolygiad; neu
- ddyddiad y dylech fod wedi cael eich hysbysu

Mewn apêl, caiff llys sirol wneud y cyfryw orchymyn i gadarnhau, i ddiddymu neu i amrywio penderfyniad yr Awdurdod fel ag y gwêl yn dda.

Mae gennych hawl i apelio i Lys Sirol yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod i wrthod diogelu llety i chi tra rydych yn aros am ddedfryd yr apêl. Gallwch hefyd apelio yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod i ddiogelu llety i chi am gyfnod cyfyngedig sy'n dod i ben cyn penderfyniad terfynol yr apêl.

A fyddaf yn cael cynnig llety tra y byddaf yn aros am ddedfryd apêl i Lys Sirol?

Mae gennych yr hawl i apelio i lys Sirol ar bwynt cyfreithiol os ydych yn anfodlon â phenderfyniad yr adolygiad neu os na roddwyd gwybod i chi am benderfyniad yr adolygiad o fewn yr amser a ragnodwyd. Rhaid i chi wneud apêl o fewn 21 diwrnod o'r dyddiad y rhoddwyd gwybod i chi am benderfyniad yr adolygiad (neu'r dyddiad y dylent fod wedi cael gwybod). Mae'n bosibl y bydd y llys yn rhoi caniatâd i apêl gael ei wneud ar ôl 21 diwrnod, mewn amgylchiadau penodol.

Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Gallwch gwyno i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru os ydych yn teimlo eich bod wedi dioddef anghyfiawnder o ganlyniad i gamweinyddu neu fethiant i ddarparu gwasanaeth gan Awdurdod. Mae gan yr Ombwdsman hawl i ymchwilio i'r ffordd y mae penderfyniad wedi'i wneud, ond ni chaiff gwestiynu rhinweddau penderfyniad a wnaethpwyd yn briodol oni bai am rinweddau mewn perthynas â darparu gofal cymdeithasol neu iechyd. Er enghraifft, gall camweinyddu godi pan fo awdurdod:

- Wedi cymryd gormod o amser i wneud rhywbeth;
- Heb ddilyn eu rheolau neu eu cyfraith eu hunain;
- Yn torri eu haddewidion;
- Wedi eich trin yn annheg; ac
- Wedi rhoi'r wybodaeth anghywir i chi.



Pan fo hawl i adolygu, byddai'r Ombwdsman yn disgwyl i chi ddefnyddio'r hawl honno cyn gwneud cwyn.



Dewis Cymru yw'r lle i gael gwybodaeth am les yng Nghymru.

Os hoffech wybodaeth all eich helpu i feddwl am yr hyn sy'n bwysig i chi, ynghyd â gwybodaeth am sefydliadau a gwasanaethau lleol a all helpu, gallwch ymweld â gwefan Dewis Cymru ar www.dewis.wales

Bydd y wefan yn eich helpu i gael mynediad at wasanaethau cymorth lleol a dod o hyd i wybodaeth a chymorth. Mae'n bwynt mynediad unigol, clir a dibynadwy

This document is also available in English.

